

Cynhadledd Genedlaethol Deddfwrfeydd y Taleithiau – Uwchgynhadledd Deddfwriaethol 2024

Louisville, Kentucky | 5–7 Awst 2024

Y cyd-destun

Cynhadledd Genedlaethol Deddfwrfeydd y Taleithiau yw asgwrn cefn llywodraethiant ar lefel is-genedlaethol yn yr Unol Daleithiau, gan roi cyfle i'r 7,500 o ddeddfwyr a'r 30,000 o staff sy'n llunio polisi ar draws 50 o daleithiau, tiriogaethau a gwladwriaethau gyflwyno gwaith ymchwil a chyfarfod mewn man niwtral. Fel rhan o Uwchgynhadledd Ddeddfwriaethol 2024—pan ddychwelwyd i Kentucky am y tro cyntaf ers 2010—daeth mwy na **5,000 o gynrychiolwyr** at ei gilydd o bob awdurdodaeth yn yr Unol Daleithiau a 21 o Seneddau tramor, gan gynnwys Cymru a Seland Newydd am y tro cyntaf erioed. Roedd yn gyfle hefyd i nodi dechrau blwyddyn o ddigwyddiadau i ddathlu **50 mlynedd** ers sefydlu'r Gynhadledd.

Daeth y Ganolfan Gonfensiynau Ryngwladol yn Louisville, Kentucky, yn “labordy anferth i ddeddfwrfeydd” am dri diwrnod, gyda’i chynteddau'n llawn bwrlwm sesiynau trafod, stondinau gwybodaeth a neuadd arddangos yn cyflwyno gwaith 268 o ymarferwyr polisi a thechnoleg—y nifer fwyaf yn hanes yr uwchgynhadledd.

Pam roedd o bwys i Gymru

Er bod y Senedd yn gweithredu mewn gwahanol gyd-destun cyfansoddiadol, mae taleithiau'r Unol Daleithiau yn ymdrin â llawer o'r un materion sy'n wynebu Cymru ddatganoledig, gan gynnwys: gwydnwch cyllidol mewn cyfnodau anwadal, datblygiadau cyflym mewn deallusrwydd artiffisial, cost uchel gofal iechyd ac ymarferoldeb datgarboneiddio trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Felly, roedd yr uwchgynhadledd yn gyfle i gymharu ffyrdd arloesol o ymateb i'r materion hyn, yn ogystal â thrafod y peryglon posibl a'r broses o daro bargeinion dwyochrog ar lefel is-genedlaethol—ategiad amhrisiadwy i waith craffu a gwaith deddfwriaethol y Senedd ei hun.

Themâu a'r hyn a ddysgwyd

1. Deallusrwydd artiffisial, democratiaeth a sgiliau

Am y tro cyntaf yn yr uwchgynhadledd, neilltuwyd ffrwd waith gyfan i bolisi ym maes **deallusrwydd artiffisial**, gan danlinellu bwriad deddfwyr i achub y blaen ar dechnolegau chwyldroadol ar fyrder. Cynhaliwyd sesiynau penodol i archwilio ffugiadau dwfn ac uniondeb etholiadau (“*It’s Not All Deepfakes: AI Can Be Useful in the Election*”).

Process”), moeseg awtomeiddio’r broses o wneud penderfyniadau, a strategaethau ar gyfer creu **gweithlu sy’n barod ar gyfer deallusrwydd artiffisial** ac sydd â’r sgiliau priodol i weithio’n unol ag awtomeiddio.

Sut y mae’n berthnasol i Gymru: Mae paratoadau'r Senedd ar gyfer etholiadau Cymru yn 2026 yn adlewyrchu pryderon yn yr Unol Daleithiau ynghylch cyfryngau synthetig. Gallai safbwyntiau ar ddyfrnodi, rheolau ar ddatgelu gwybodaeth a thryloywder helpu i lywio canllawiau a dulliau gweithredu Comisiwn Etholiadol Cymru yng nghyd-destun camwybodaeth. Mae'r pwyslais ar sgiliau gydol oes trosglwyddadwy yn cyd-fynd ag agenda ein Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

2. Gwydnwch cyllidol mewn economi ansicr

Yng nghyd-destun rhagolygon o ‘laniad meddal’ economaidd ond twf arafach, cynhaliwyd cyfres o weithdai (ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Elusennol Pew) i drafod ffyrdd o roi prawf ar **gyllidebau’r taleithiau a’r gwladwriaethau** yng nghyd-destun senarios o ddirwasgiad a thrychinebau naturiol. Cymharodd deddfwyr y rheolau ar gyfer cronfeydd wrth gefn â mesurau sefydlogi awtomatig sy’n rhoi cap ar wariant pan fydd refeniw yn gostwng.

Sut y mae’n berthnasol i Gymru: Gyda setliadau cyllidebol datganoledig yn agored i amrywiadau yn y grant bloc a yrrir gan fformiwla Barnett, mae'r dull astudiaeth achos a drafodwyd yn Louisville yn cynnig templed i Bwyllgor Cyllid y Senedd wrth iddo archwilio cronfeydd wrth gefn a chynlluniau wrth gefn Llywodraeth Cymru.

3. Hinsawdd, trafnidiaeth a thegwch i gymunedau gwledig

Yn ystod sesiwn oedd â’r teitl “**Charge! States Forge Ahead on EV Expansion**”, amlinellwyd yr ymdrechion gan daleithiau ac ar lefel ffederal i osod gorsafoedd gwefru cyflym bob 50 milltir ar hyd coridorau rhyngdaleithiol, ochr yn ochr â grantiau sydd wedi'u hanelu at wefrwyr cymunedol ar gyfer trefi bach. Pwysleisiodd y siaradwyr—o Colorado, Florida a'r Swyddfa Ynni a Chludiant ar y Cyd—fod yn rhaid sicrhau llai o deithiau gan gerbydau a rhannu costau mewn ffordd deg ochr yn ochr â thrydaneiddio.

Sut y mae’n berthnasol i Gymru: Mae cysylltedd gwledig yn fater sydd yr un mor bwysig yng Nghymru; mae model yr Unol Daleithiau o osod seilwaith gwefru ar rwydweithiau ffyrdd presennol—yn ogystal â’r ddatl ynghylch codi ffioedd ar ddefnyddwyr ffyrdd i gymryd lle lefelau refeniw treth tanwydd sy’n gostwng—yn awgrymu syniadau defnyddiol ar gyfer strategaeth cerbydau trydan Trafnidiaeth Cymru ac ymchwiliad Pwyllgor Hinsawdd y Senedd i gyllido seilwaith.

4. Fforddiadwyedd gofal iechyd

Gwnaeth sawl sesiwn ganolbwyntio ar **fyrddau fforddiadwyedd cyffuriau presgripsiwn taleithiol**, hepgoriadau mewnforio a thrafodaethau swmpbrynu—mecanweithiau y mae Maryland, Colorado a Washington yn eu treialu i leihau costau

cynyddol. Er bod strwythurau gofal iechyd yr Unol Daleithiau yn wahanol i'r strwythurau yng Nghymru, mae'r bensaernïaeth ddeddfwriaethol (byrddau pennu prisiau, mandadau tryloywder, cynlluniau peilot ail-fewnforio) yn ffynhonnell o dystiolaeth gymharol i helpu i lywio ymdrechion Cymru i sicrhau prisiau tecach ar gyfer meddyginiaethau yn y GIG.

5. Moesgarwch a democratiaeth gynhwysol

Gan adleisio uchelgais y Senedd ei hun ym maes amrywiaeth, agorodd yr hanesydd **Doris Kearns Goodwin** yr uwchgynhadledd drwy fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd gan ystod o arweinwyr, o Lincoln i Johnson, gan ddadlau mai empathi sydd wrth wraidd cynnydd dwyochrog. Roedd sesiynau eraill yn trafod gwaith ymchwil ym maes gwyddoniaeth yr ymennydd i wrthweithio effeithiau rhagfarn wybyddol mewn dadleuon gwleidyddol, tra roedd paneli rhyngwladol yn gyfle i rannu profiadau ar offer ymgysylltu 'digidol yn gyntaf' sy'n ehangu cyfranogiad.

Safbwynt personol: Fel eiriolwr hirdymor o blaid cynrychiolaeth gynhwysol yn fy rôl fel Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, cefais fy syfrdanu gan gyflwyniadau ymarferol ar gapsynu â chymorth deallusrwydd artiffisial a all newid ar unwaith rhwng Saesneg, Sbaeneg ac Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o we-ddarllediadau'r pwyllgorau.

Myfyrdod i gloi

Cadarnhaodd uwchgynhadledd Louisville pa mor werthfawr yw hi i barhau i ymgysylltu â deddfwyr eraill ar y lefel is-genedlaethol. Mewn oes o argyfyngau sy'n gorgyffwrdd—boed yn argyfyngau economaidd, technolegol neu hinsoddol—mae deddfwrfeydd taleithiol a Seneddau datganoledig yn gweithredu fel labordai polisi ystwyth. O fesurau diogelwch ym maes deallusrwydd artiffisial i seilwaith clyfar o ran hinsawdd a ffyrdd o amsugno effeithiau sioc ariannol, mae'r syniadau a gyfnewidiwyd yn Kentucky yn cynnig mewnwelediadau pendant ac ymarferol i Gymru. Yr un mor bwysig oedd yr ysbryd o drafodaethau dwyochrog pragmatig a chwilfrydedd a oedd yn llenwi'r coridorau—yn ein hatgoffa, beth bynnag fo'r awdurdodaeth, fod democratiaeth yn ffynnu pan fydd deddfwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

Adam Price AS